Ffôn/Tel: 01492 642800
Ffacs/Fax: 01492 642801

Ffordd Nebo
LLANRWST
LL26 0SD

YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth / Head : Miss Elan Davies
e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
www.ysgoldyffrynconwy.org

Bwletin i Rieni – Rhagfyr 2016

Annwyl Rieni/Gwarcheidwad,

Hoffwn fanteisio ar y cyfle ar ddiwedd tymor prysur i ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth dros y tymor ac i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi a'ch plentyn/plant. Mae'r tymor wedi bod yn un prysur a llwyddiannus i'r ysgol gan gynnwys dathlu canlyniadau arbennig Haf 2016, gan gynnwys canlyniadau TGAU uchaf Conwy a derbyn gwobr Ysgol y Flwyddyn 2016 yn nathliad Addysg Gorfforol a Chwaraeon Conwy yn Venue Cymru mis diwethaf.

Dros yr wythnos diwethaf bu perfformiadau rhagorol o'r sioe gerdd 'Gris' gan gast talentog iawn. Fel rhan o'u perfformiadau daeth disgyblion o ysgolion cynradd y dalgylch yma dydd Llun ac yna bu perfformiadau arbennig nos Lun, Mercher ac Iau. Mae ein diolchiadau mawr fel ysgol yn mynd i bawb ddaeth i wylio'r sioe ac i'n cefnogi ac yn enwedig i Miss Llio Japheth, Miss Angharad Ellis a Mr Chris Roberts am eu holl waith yn arwain, cyfarwyddo, cyfeilio a pharatoi'r disgyblion ar gyfer y sioe. Rydym yn ffodus iawn!

Ymysg y llith o ddigwyddiadau nodweddiadol eraill diweddar mae campwriaeth y tîm Rygbi Merched hyn a enillodd pencampwriaeth genedlaethol y URC/WRU yng Nghaerdydd; buddugoliaethau niferus ein timau rygbi bechgyn a'n timau peldroed; ffug gyfweliadau blwyddyn 11 ar y 9fed o Ragfyr; a gwaith arbennig y disgyblion wrth gasglu arian at wahanol ymgyrchoedd gan gynnwys dros £1,000 tuag at Blant Mewn Angen, 35 bocs anrhegion at ymgyrch apêl Nadolig, £130 tuag at y British Legion a'u hymgyrchoedd heddiw ar gyfer diwrnod siwmper Nadolig. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth i'r ymgyrchoedd hyn.

Dros y tymor hefyd mae disgyblion blwyddyn 10 a 12 wedi cael cyfle i ymweld â Ffair Sgiliau blynyddol Venue Cymru; bu rhai disgyblion y 6ed dosbarth ar ymweliadau i brifysgolion a/neu yn rhan o waith llwybrau gyrfa/astudio; aeth blwyddyn 11 a'r 6ed dosbarth sydd yn astudio Daearyddiaeth ar waith maes hefyd yn ystod y tymor gan gydweithio efo disgyblion o ysgolion Uwchradd eraill yn y Gogledd a bu blwyddyn 9 yn creu modelau gwych o losgfynyddoedd. Dros hanner tymor bu rhai o'n disgyblion hefyd ar daith fythgofiadwy i Efrog Newydd a Washington, ac eraill efo'r Urdd i Disney Land, Paris.

Presenoldeb: Rydym yn parhau i anelu i gyrraedd ein targed uchelgeisiol o 95.5% o bresenoldeb ysgol gyfan ac ar hyn o bryd rydym dros 95%. Gyda'ch cefnogaeth chi rydym yn sicr o wella ar y canran hynny dros y ddau dymor nesaf. Os yw eich/mab merch yn absennol ar gyfer apwyntiadau meddygol angenrheidiol gofynnwn yn garedig i chi anfon nodyn apwyntiad/meddygol i swyddfa'r ysgol.

Gwisg Ysgol: Mae'r mwyafrif helaeth o'n disgyblion yn cydymffurfio yn dda iawn efo'n polisi gwisg – diolch yn fawr iawn i chi fel rhieni am gefnogi hynny hefyd. Fel mae'r tymor yn dod i ben fodd bynnag mae unigolion sydd bellach ddim yn y wisg gywir llawn. Rydym yn sicr y bydd hyn yn gweld gwelliant ar ddechrau'r tymor newydd. Mae copi o'n polisi gwisg ar gael ar ein safwe, ym mhrosbectws yr ysgol, ac yng Nghynllunwyr ein disgyblion. **Hoffwn dynnu sylw yn benodol at y cyfeiriad at dlysau trwyn yn y polisi, mae yn nodi yn glir nad yw hyn yn dderbyniol. Mae yn bryder i ni'r nifer gynyddol o ddisgyblion sydd yn dod yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau wedi cael y tlysau yn eu trwyn – nid yw hyn yn dderbyniol yn ôl y polisi. Hyderwn na fydd cynnydd pellach dros y**

Cyngor Celfyddydau Cymu
Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Nadolig. Byddwn yn gofyn i unrhyw ddisgybl sydd eisoes efo tlysau trwyn i'w tynnu neu i roi tlws clir i mewn. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth efo hyn.

Trefniadau tywydd garw:
Rydym newydd dderbyn yr arweiniad diweddaraf gan Awdurdod Conwy am drefniadau ysgolion i gau mewn tywydd garw. Pe bai'r ysgol yn cau oherwydd tywydd garw byddwn yn anelu i gysylltu efo rhieni a disgyblion yn y modd canlynol:

- Drwy ein system neges testun **– rhowch wybod i swyddfa'r ysgol os oes unrhyw newid yn eich manylion cyswllt**
- Drwy ein prif cyfrif Trydar**: @ysgdyffrynconwy**
- Drwy safwe Awdurdod Conwy www.conwy.gov.uk/ysgolionargau. Bydd Capital FM/Heart/Radio Cymru/Radio Wales yn darlledu gwybodaeth am amgylchiadau ysgolion unigol o wybodaeth a roddwyd ar wefan yr Awdurdod www.conwy.gov.uk/ysgolionargau.

Gallwch ddarllen mwy am lwyddiannau a digwyddiadau'r ysgol ar ein safwe: http://ysgoldyffrynconwy.org/ a drwy ddilyn ein cyfrifon Twitter yn cynnwys: **@ysgdyffrynconwy** / **@Pedyffrynconwy / @dramaYDC**

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer y Gwyliau Nadolig eleni ar ddydd Gwener yr 16eg o Ragfyr ac yn ail-agor ar ddydd Mawrth y 3ydd o Ionawr yn dilyn y gwyl banc.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Yn gywir
Miss Elan Davies, Pennaeth

Cyngor Celfyddydau Cymu
Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government